# SL(6)490 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau").

Mae'r Prif Reoliadau yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG (fel y bo'n berthnasol) yng Nghymru godi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir i ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig (DU), oni bai bod yr ymwelydd tramor, neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael, yn destun esemptiad rhag ffioedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i sicrhau bod y Prif Reoliadau yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth y DU ynghylch y Gordal Iechyd Mewnfudo a myfyrwyr tramor o'r UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a Lichtenstein a'u dibynyddion.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau. Bernir nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn gofyn am ymgynghoriad gan nad oes gan Lywodraeth*

*Cymru unrhyw ddisgresiwn o ran polisi IHS a chan fod y newidiadau yn cael eu hystyried yn hanfodol i gysoni'r Prif Reoliadau â pholisi'r DU."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Mehefin 2024**